

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

# Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd: Cwestiynau ac Ateb

uchelgaisgogledd.cymru

# Llywodraethu a Strwythur

**Beth yw Cyd-bwyllgor Corfforedig?**
Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) yn endidau llywodraeth leol corfforedig rhanbarthol. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 greodd y fframwaith ar gyfer sefydlu'r CBC yng Nghymru ac fe'u sefydlwyd ar 1 Ebrill 2021.
Y pedwar CBC yng Nghymru yw:

- Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam)
- Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Ceredigion, Powys)
- Cyd-bwyllgor Corfforedig y De Ddwyrain (Caerdydd, Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Pen-y-bont, Caerffili, Merthyr Tudful, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg)
- Cyd-bwyllgor Corfforedig y De Orllewin (Sir Gâr, Castell-Nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe)

**Pa swyddogaethau/pwerau sydd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig?**
Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn endidau llywodraeth leol sydd â phwerau, dyletswyddau, llywodraethu a strwythurau gweinyddol tebyg i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae gofyn iddynt gydymffurfio â'r un dyletswyddau cyffredinol â sefydliadau'r sector cyhoeddus fel y Ddeddf Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Mesur y Gymraeg.

Mae ganddynt ddyletswydd statudol i lunio:

- Cynllun Datblygu Strategol
- Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

Yn ogystal, mae ganddynt rym i wneud unrhyw beth fydd yn gwella neu hybu lles economaidd rhanbarthol. Daeth y swyddogaethau hyn i rym ym mis Mehefin 2022 ac mae'r CBC wedi bod yn cyfarfod yn ffurfiol ers mis Ionawr 2022, pan osododd ei gyllideb gyntaf. Yn ogystal â Chanllawiau Statudol, mae rheoliadau pellach wedi dod i rym, yn ogystal â chyhoeddi canllawiau statudol penodol i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar rai elfennau gwaith, er enghraifft, canllawiau Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ym mis Gorffennaf 2023.

**Pa mor weithredol ydi'r CBC?**
Mae'r CBC wedi'i sefydlu fel endid corfforedig gyda'i drefniadau cyfansoddiadol a democrataidd ei hun, sy'n weithredol ac yn cael eu datblygu. Mae rhaglenni ac adroddiadau pwyllgor i'w gweld ar wefan Cyngor Gwynedd fan hyn. Yn y dyfodol, mae'r CBC yn bwriadu caffael ei system rheoli pwyllgorau ei hun a rheoli'r gwaith o gyhoeddi ei raglenni a'i adroddiadau ei hun.
Mae'r CBC wedi sefydlu ei Is-bwyllgorau Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol i ymgymryd â'i swyddogaethau statudol. Mae'r is-bwyllgor trafnidiaeth strategol wedi cwrdd, ac mae gwaith ar y gweill i baratoi'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun Datblygu Strategol yn llai datblygedig oherwydd cyfyngiadau adnoddau. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw weithwyr yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y CBC a dim ond un contractwr llawn amser sy'n ymroddedig i yrru'r rhaglen waith ymlaen. Ar hyn o bryd mae'r holl swyddi statudol yn cael eu gwneud yn rhan-amser gyda rôl y Prif Weithredwr yn cael ei gyflawni gan Gyfarwyddwr Portffolio'r Cynllun Twf a Swyddog Monitro a Phrif Swyddog Cyllid Cyngor Gwynedd wedi'u penodi i'r rolau hyn gan y CBC hefyd. Mae Bwrdd Gweithredu Prosiect wedi'i sefydlu ac mae'n gyfrifol am gwblhau'r gwaith sefydlu a chyflawni gweithredol.
Trosglwyddodd Cynllun Twf Gogledd Cymru i'r CBC yn llwyddiannus ar 1af Ebrill 2025. Un o dasgau allweddol y CBC a fydd yn galluogi'r CBC i weithredu'n llawn yw trosglwyddo'r Cynllun Twf, y cyllid a'r swyddogion Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n gyfrifol am gyflwyno y Cynllun Twf i mewn i sefydliad y CBC.
Mae'r CBC hefyd wedi'i ddynodi fel y Corff Atebol ar gyfer Parth Buddsoddi Gogledd Ddwyrain Cymru (Adroddiad Blaen - Diweddariad ar y Parth Buddsoddi)

**Beth yw enw'r CBC?**

Er mai'r enw ffurfiol yw Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd, bydd y CBC yn mabwysiadu enw a brand Uchelgais Gogledd Cymru. Cymeradwywyd hyn yng nghyfarfod Bwrdd y CBC a gynhaliwyd ar 27 Hydref, 2023 - Brandio CBC.

**Pwy yw aelodau'r CBC?**

Mae Arweinydd pob Cyngor o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn aelodau o'r CBC. Mae Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn aelod gyda'r hawl i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud yn benodol â'r swyddogaeth cynllunio strategol a'i chyllideb benodol. Mae'r rhain yn cael eu pennu gan Reoliadau.

Er eu galw'n "Gyd-bwyllgorau Corfforedig" mae'r CBC yn gorff annibynnol sydd â chyfrifoldeb statudol unigryw am ei swyddogaethau ei hun. Gall sefydlu a phenodi is-bwyllgorau gyda swyddogaethau dirprwyedig. Mae'n pennu cwmpas dirprwyo, ond mae rhai penderfyniadau allweddol wedi'u dynodi ar gyfer y CBC yn unig yn ôl y gyfraith, er enghraifft gosod y gyllideb a mabwysiadu'r SDP a'r CTRhT. Mae gofyn hefyd penodi Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Is-bwyllgor Safonau.

Ac eithrio'r aelodaeth graidd, mae pob aelod arall yn cael ei gyfethol gan y CBC i'w aelodaeth ac i aelodaeth ei is-bwyllgorau. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig aelodau etholedig eraill ond hefyd cynrychiolwyr sefydliadau partner neu randdeiliaid.

**Beth yw'r strwythur llywodraethu arfaethedig?**

Mae is-bwyllgorau CBC yn cael eu sefydlu fel rhan o brosiect gweithredu'r CBC. Y rhain yw:

- Trafnidiaeth Strategol
- Cynllunio Strategol
- Lles Economaidd
- Llywodraethu ac Archwilio
- Safonau

Efallai y bydd angen is-bwyllgorau eraill yn y dyfodol. Bydd y modd y mae'r CBC yn cael ei graffu hefyd yn newid. Bydd ganddo ei Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei hun yn ogystal â chyd-bwyllgor trosolwg a chraffu rhanbarthol arfaethedig. Ceidw'r Cynghorau cyfansoddol gyfrifoldeb am drefniadau Trosolwg a Chraffu.

Mae cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru wedi ei drosglwyddo i'r CBC o'r 1af o Ebrill 2025. Mae'r is-bwyllgor Lles Economaidd wedi ymgymryd â rôl y Bwrdd Uchelgais Economaidd er o fewn fframwaith y CBC. Bydd ganddo i raddau helaeth yr un swyddogaethau dirprwyedig â model presennol y Bwrdd Uchelgais ac mae'r fframwaith cynghori megis y Grŵp Swyddogion Gweithredol i aros yn ei le er y bydd angen adolygu a diweddaru hyn. Er ei fod wedi'i ddynodi'n is-bwyllgor, bydd y chwe Arweinydd Awdurdod Lleol yn aelodau o'r Is-bwyllgor Lles Economaidd sy'n cefnogi lefel y ddirprwyaeth yn y model. Bydd modd cyfethol i'r is-bwyllgor wedi iddo gael ei sefydlu.

**Beth fydd strwythur staffio'r CBC?**

Mae gan y CBC gyfrifoldeb cyfreithiol i benodi i'r rolau a ganlyn:

- Prif Weithredwr
- Swyddog Monitro (Cyfreithiol)
- Swyddog Adran 151 (Cyllid)

Mae'r Swyddog Monitro a Swyddog A151 Cyngor Gwynedd, yn y drefn honno, Iwan Evans (Swyddog Monitro Cyfreithiol) a Dewi Morgan (Swyddog Cyllid A151) wedi cael eu penodi i ymgymryd â'r rolau hynny gan y CBC.

Mae Swyddfa Rheoli Portffolio y Cynllun Twf yn gyflogedig gan y CBC ochr yn ochr â throsglwyddo'r Cynllun Twf a'i gyllid.

Mae gan y CBC gyllideb y cytunwyd arni sy'n caniatáu recriwtio cydweithwyr i gefnogi'r swyddogaethau cynllunio a thrafnidiaeth.

Fel gydag unrhyw sefydliad, mae gwaith dylunio sefydliadol y CBC yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn briodol i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol ac mae'n debygol o newid dros amser.

**A fydd y CBC yn gyfrifol am ei wasanaethau TG, diogelu data, Rhyddid Gwybodaeth, AD, caffael, cyllid, a chyfreithiol ei hun?**

Bydd, bydd yn gweithredu yn union fel Awdurdod Lleol. Fodd bynnag, yn y lle cyntaf, bydd y rhan fwyaf o'r swyddogaethau hyn (TG, Adnoddau Dynol, Cyllid, Cyfreithiol) yn cael eu darparu drwy Gyngor Gwynedd o dan gytundebau lefel gwasanaeth.

**Sut mae'r CBC yn cael ei ariannu?**

Mae'r CBC yn "gorff codi ardollau", ac fe'i ariennir yn bennaf drwy godi ardoll ar y chwe awdurdod lleol ynghyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (sy'n cyfrannu at y swyddogaeth Cynllunio Strategol yn unig). Gall hefyd dderbyn grantiau gan Lywodraeth Cymru. Yn hyn o beth mae'r CBC yn debyg i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae'n ofynnol i'r CBC osod cyllideb flynyddol erbyn 31 Ionawr, fydd yn dangos faint o incwm y CBC sydd i'w gael o'r ardoll. Yna gwneir penderfyniad pellach ar y dull o ddosrannu'r ardoll i bob un o'r cynghorau cyfansoddol (a'r ACLl o ran Cynllunio Strategol). Ar gyfer 2024/25 dosrannwyd yr ardoll gan ddefnyddio'r un ffigurau poblogaeth â'r rhai a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru yn y setliad cyllido ar gyfer awdurdodau lleol ac er y rhagwelir y bydd hyn yn parhau yn y blynyddoedd i ddod, bydd angen i hyn fod yn destun penderfyniad blynyddol ac unfrydol gan bob aelod.

Mae holl ffynonellau cyllido presennol Swyddfa Rheoli Portffolio y Cynllun Twf hefyd wedi trosglwyddo i'r CBC fel rhan o drosglwyddo'r Cynllun Twf.  Mae'r gyllideb hon wedi neilltuo a wedi ei gefnogi gan Gytundeb Cyflawni a Chyllido gyda'r Cynghorau a phartneriaid addysg.

**Beth yw cyllideb y CBC?**

Gellir gweld cyllideb y CBC ar gyfer 2024-25 fan hyn.